Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# GWEITHDAI HTW IECHYD

## ASESU TECHNOLEG AC ECONOMEG

Mae Technoleg Iechyd Cymru (HTW) wedi cydweithio gyda Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (HGBC) er mwyn eich cyflwyno i gysyniadau a dulliau allweddol ym meysydd Asesu Technoleg Iechyd ac Economeg Iechyd, drwy ddau weithdy rhyngweithiol am ddim.

## PAM FOD HYN YN BWYSIG?

Bydd datblygiadau mewn technolegau iechyd yn cael effaith fawr ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd ein gweithdy Asesu Technoleg Iechyd (ATI) yn eich cyflwyno i ddulliau allweddol a ddefnyddir i arfarnu technolegau iechyd a deall eu gwerth posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a phartneriaid technoleg.

Bydd y gweithdy Economeg Iechyd (EI) yn eich cyflwyno i'r dulliau gwerthuso economaidd a ddefnyddir er mwyn deall effeithiolrwydd cost ac effaith technolegau iechyd a gofal ar adnoddau.

Bydd y ddau weithdy yn defnyddio enghreifftiau byw gan TIC, y corff sy'n gyfrifol am lunio canllawiau cenedlaethol er mwyn cael y gwerth gorau a gwneud y defnydd gorau o dechnolegau a fydd yn gwella iechyd a gofal yng Nghymru.

**ARCHEBWCH EICH LLE NAWR**

www.htw-workshops.eventbrite.co.uk

GWEITHDAI HTW IECHYD

ASESU TECHNOLEG AC ECONOMEG

Technoleg Iechyd Cymru Health Technology Wales

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Life Sciences Hub Wales

# PWY ALL FYNYCHU'R GWEITHDAI?

Pawb! Os oes gennych ddiddordeb arbenigol neu bersonol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, bydd ein gweithdai Asesu Technoleg Iechyd ac Economeg Iechyd yn rhoi cyflwyniadau i'r pynciau pwysig hyn.

Efallai y bydd hi'n briodol i chi fynychu un o'r gweithdai, ond gallwch gyfranogi yn y ddau. Mae croeso i chi hefyd argymell y gweithdai i gydweithwyr perthnasol yn eich gweithle.

- Staff llinell flaen y GIG
- Cyfarwyddwyr Cyllid, Meddygol a Chynllunio y GIG
- Comisiynwyr gofal
- Rheolwyr gweithlu
- Cleifion
- Aelodau o'r cyhoedd
- Academia
- Myfyrwyr prifysgol
- Datblygwyr technoleg
- Cynrychiolwyr diwydiant

# BETH I'W DDISGWYL GAN Y GWEITHDAI

Bydd pob gweithdy'n para 3 awr, tua hanner diwrnod.

Addysgir Asesu Technoleg Iechyd gan arbenigwyr o Cedar, canolfan werthuso academaidd y GIG.

Addysgir Economeg Iechyd gan arbenigwyr o Ganolfan Economeg Iechyd Abertawe.

Bydd y ddau weithdy'n cynnwys enghreifftiau go iawn yn seiliedig ar byncSiau HTW. Bydd staff HTW hefyd wrth law i gynnig cymorth i bawb yn y gweithdy.

Asesu Technoleg Iechyd:

- Beth yw ei ddiben a sut y'i gwneir?
- Bod yn feirniadol ynglŷn â thystiolaeth glinigol
- Gwneud penderfyniadau

Economeg Iechyd:

- Beth yw economeg iechyd?
- Deall adnoddau prin yn GIG Cymru
- Dulliau costio
- Sut mesurir ansawdd bywyd (QALY)

Cadwch olwg ar eich cynnydd ar Twitter. Chwiliwch am #WelshHealthWorkshops

GWEITHDAI HTW IECHYD
ASESU TECHNOLEG AC ECONOMEG

Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# MANTEISION:

Mae pob gweithdy AM DDIM!

Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brosesau gwneud penderfyniadau, yn cynnwys eu perthynas â pholisi a chomisiynu clinigol.

Sgiliau trosglwyddadwy er mwyn defnyddio eich gwybodaeth newydd yn eich gweithle.

Cyfleoedd i rwydweithio gyda chyd-fynychwyr y gweithdy ac arbenigwyr perthnasol.

Bydd pob gweithdy yn eich galluogi i wella eich sgiliau a'ch gyrfa.

# WORKSHOP DATES:

12 Mawrth 2019
ATI 9:30AM-12:30PM

20 Mawrth 2019
EI 1:30PM-4:30PM

13 Mehefin 2019 -
ATI 9:30AM-12:30PM
EI 1:30PM-4:30PM

25 Medi 2019
ATI 9:30AM-12:30PM
EI 1:30PM-4:30PM

11 Rhagfyr 2019
ATI 9:30AM-12:30PM
Ei 1:30PM-4:30PM

Bydd egwyl ginio am 12:30PM-1:30PM. Darperir lluniaeth.

## ARCHEBWCH EICH LLE NAWR


www.htw-workshops.eventbrite.co.uk

# SUT I DDOD O HYD I NI:

Technoleg Iechyd Cymru (HTW)
Ail Lawr, Hwb Gwyddorau Bywyd,
3 Sgwâr y Cynulliad, Caerdydd, CF10 4PL

Mae TIC daith 10 munud ar droed o orsaf drenau Bae Caerdydd.

Mae parcio ar gael gerllaw yn Q-Park Stryd Pierhead.




Cadwch olwg ar eich cynnydd ar Twitter. Chwiliwch am #WelshHealthWorkshops



Dr Susan Myles
Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru (HTW)

Mae Technoleg Iechyd Cymru yn llawn cyffro i fod yn cyflwyno'r gweithdai hyn yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Credwn y gall ystod eang o randdeiliaid o bob rhan o faes iechyd a gofal cymdeithasol elwa drwy ddeall cysyniadau a dulliau allweddol mewn ATI ac EI. Gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol er mwyn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr yng Nghymru. Boed eich bod yn ymarferwr profiadol neu'n rhywun sydd â diddordeb personol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn eich helpu i ddadansoddi a deall sut yr ydym yn arfarnu technolegau iechyd. Bydd y themâu a archwilir gennym yn amserol ac yn procio'r meddwl, gan roi sgiliau trosglwyddadwy i chi i'w defnyddio yn eich rôl."

"Yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru rydym yn hynod ymwybodol bod y gallu i fesur a dangos effaith arloesedd dechnolegol ar economeg iechyd yn hollbwysig wrth gyflwyno a datblygu atebion effeithiol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wrth ein bodd i gael y cyfle i weithio mewn partneriaeth â HTW er mwyn darparu'r gweithdai gwerthfawr a llawn gwybodaeth hyn. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr ar draws y sector iechyd a gofal i ddatblygu syniadau arloesol, gan gysylltu'r rhain gyda'r atebion technolegol diweddaraf a ddaw o'r diwydiant gwyddorau bywyd."



Cari-Anne Quinn
Prif Weithredwr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

## ARCHEBWCH EICH LLE NAWR

www.htw-workshops.eventbrite.co.uk

Cadwch olwg ar eich cynnydd ar Twitter. Chwiliwch am #WelshHealthWorkshops